

Croeso i'r Gymdeithasfa yn y De

Mae aelodau a swyddogion Eglwys Soar, Pontardawe yn estyn croeso cynnes iawn i fynychwyr Cymdeithasfa'r De a fydd yn cael ei gynnal ar 24 Hydref

Capel teulu'r bardd Gwenallt yw Soar, a ger y pulpud gellir gweld cadair a enillodd ei dad a oedd hefyd yn fardd o fri ac a fu'n flaenor yn Soar. Bu farw mewn damwain erchyll yn y gwaith tunplat arferai gyflogi cannoedd o drigolion Cwmtawe, damwain a achosodd argyfwng ffydd i'r Gwenallt ifanc. Ysgol Gyfun Cwm Tawe, Canolfan hamdden a siopau sydd bellach yn sefyll ar safle'r hen waith.

Magwyd prifardd arall ym Mhontardawe sef y cyn-archdderwydd, y diweddar Dafydd Rowlands, a grisialodd natur tirwedd a chymdeithas ei fro yn ei waith creadigol. Yma hefyd y treuliodd y bardd Menna Elfyn ei blynnydoedd cynnar, a'i thad, yr emynydd T. Elfyn Jones, yn weinidog ar gapel y Tabernacl, Pontardawe.

Gellir gweld ffynnon lechen drawiadol yn coffau Gwenallt ar y sgwâr ger y Groes,



Pontardawe a chwm Tawe ar eu gorau

sef y groesffordd ger y goleuadau traffig, daflad carreg o fan geni'r bardd a'r gofeb goncridd, blaen ar y wal gerllaw. Cyfeiriwyd ato gan Dafydd Rowlands yn ei gerdd enwog i Gwenallt *Y Bardd yn y Wal*. Mae'r ffynnon hefyd yn coffau'r Athro T. J. Morgan, yr ysgolhaig a aned yn y Glais, a oedd yn dad ar y diweddar

Rhodri Morgan AC a'r hanesydd disglair Prys Morgan.

Mae nifer o ffigyrau nodedig ym myd crefydd â chyswllt agos â Chwm Tawe, yn eu plith cyfansoddwr yr emyn donau enwog Price a Bryn Calfaria,

(parhad ar y dudalen 2)

Encil Chwiorydd y De

Cynhaliwyd Encil Chwiorydd y De ddydd Mawrth, Medi'r 25ain, yng Ngholeg Trefeca.

Croesawyd yr aelodau gan y Llywydd, y Parch Lona Roberts, ac arweiniodd y defosiwn trwy gyfeirio at Dduw yn



ein gwahodd ac yn ein croesawu i'r wledd.

Arweiniwyd sesiwn y bore gan Mrs. Elenid Jones, sy'n hynod o weithgar gydag Undeb yr Annibynwyr a'i brwdfrydedd dros faterion rhyngwladol. Testun ei sgwrs oedd Dathlu 200 mlwyddiant cenhadaeth yr Annibynwyr ym Madagascar. Daeth ei diddordeb personol hi ym Madagascar yn gynnar yn ei bywyd gan i'w hen ewythr, Daniel Owen Jones, fod yn genhadwr yno a chanddi atgofion clir iawn ohono. Ceir ei hanes yn y llyfryn 'Triawd yr Ynys'. Cafwyd darlun byw iawn o'r cenhadon cyntaf, David Jones, yn 21ain oed, a Thomas Bevan, yn 22ain oed, yn gadael gyda'u teuluoedd i Fadagascar, ail ynys fwyaf yn y byd, ar Awst 18fed, 1818, y ddau wedi'u haddysgu a'u hyfforddi gan Thomas Phillips yn Neuadd Lwyd, Aberaeron. Yn dilyn afiechyd trofannol bu pump o'r criw farw mewn ychydig fisoedd i'w gilydd gan adael David Jones i frwr ymlaen â'r gwaith. Ymunodd David Griffiths, yn

(parhad ar y dudalen 2)

Croeso i'r Gymdeithasfa yn y De (parhad)



Daniel Protheroe, a aned, fel y cyfansoddwr enwog arall J T Rees, yng Nghwmgiedd ger Ystradgynlais cyn ymfudo i UDA. Cafodd cyn-Arch Esgob Caergaint, Dr Rowan Williams hefyd ei fagu yng nghwm Tawe a'i fedyddio yn y Tabernacl, Ystradgynlais.

Er bod y Gymraeg wedi dirywio yn y Cwm yn ddiweddar, mae nifer o'i drefi a phentrefi yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o ran nifer siaradwyr yr iaith ac yn 2016 fe lwyddodd Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe sicrhau grant gan Lywodraeth Cymru i agor Canolfan Gymraeg Tŷ'r Gwrhyd. Mae Tŷ'r Gwrhyd gyferbyn â Soar yng nghanol tref Pontardawe ac yn cynnwys swyddfeydd i fudiadau Cymraeg, ystafelloedd cyfarfod a siop lyfrau Cymraeg. Cofiwch alw draw os oes gennych amser!

Mae'r hanes a'r diwylliant cyfoethog yma yn helpu cynnal Cristnogion y Cwm, ac yn seiliau cadarn ar gyfer gwaith Duw yn ein cornel fach hyfryd ni o Gymru.

Edrychwn ymlaen at eich gweld!

Sioned Williams

Gweddi am anniddigrwydd

Bydded i Dduw greu ynom anniddigrwydd wrth gynnig neu glywed atebion rhwydd, hanner gwirioneddau a chysylltiadau annelwig, er mwyn i ni fedru byw yn nyfnderoedd ein calonnau. Bydded i Dduw ein bendithio gyda dig am anghyfiawnder, gormes a cham-drin pobl er mwyn i ni weithio dros gyfiawnder, rhyddid a heddwch.

Gweddi Ffransisgaidd

CALENDR Y GOLEUAD

Henaduriaeth Trefaldwyn. Bydd y cyfarfod ym Moreia, Llanfair Caereinion ar Ddydd Sadwrn, Tachwedd 10fed, am 1.30.

Encil Chwiorydd y De (parhad)

27ain oed, ag ef o fewn y flwyddyn. Bu iddynt gyflawni gwaith anhygoel gan sefydlu ysgol gymunedol, cyfieithu'r Beibl i'r iaith Madagaseg, paratoi llyfrau emynau a phregethu yn yr iaith. Cyfieithwyd 'Taith y Pererin' gan David Griffiths.

Bu'n rhaid i'r cenhadon ddychwelyd i Gymru yn dilyn erlid creulon ar y Cristnogion yn ystod teyrnasiad y frenhines, Ranavalona. Wedi dychwelyd ysgrifennodd David Griffiths y llyfr 'Hanes Madagascar' sydd bellach wedi ei gyfieithu i'r Saesneg a Madagaseg.

Erbyn hyn mae 22 o genhadon o Gymru wedi gwasanaethu ym Madagascar. Ymunodd y Presbyteriaid a'r Annibynwyr i sefydlu Eglwys Crist gan roi'r pwyslais ar addysg ac iechyd o fewn y gymuned. Mae'r Eglwys yn cynnal Cartref i Blant Amddifad, Lloches i Fenywod, Meddygfa, Hyfforddiant i Weithwyr Iechyd, Prosiect Trais yn y Cartref a Phrosiect Hunan Gynhaliol. Mae 350 o ysgolion o dan ofal yr Eglwys gan gynnwys Ysgol David Jones ac Ysgol Thomas Bevan.

Yn anffodus, nid ym Madagascar yn unig y gwelir problemau cymdeithasol dybryd, ond yn ein cymunedau ni yng Nghymru, a phlethwyd hyn i sgwrs Mrs. Ann Dwynwen Davies yn sesiwn y prynhawn. Mae Ann Dwynwen Davies yn aelod o Eglwys Efail Isaf, eglwys a gofrestrwyd fel Cwmni Elusennol ddeng mlynedd yn ôl yn dilyn ymddeoliad y Gweinidog, y Parch Eirian Rees. Mae'n Eglwys i ardal eang, nid yn gyfyngedig i un pentref yn unig, gyda dros 200 o aelodau, llawer yn deuluoedd ifanc, a 70 o blant yn yr Ysgol Sul. Gweinyddir yr Eglwys gan Fwrdd o Gyfarwyddwyr sydd wedi ffurfio gwahanol weithgorau. Adnewyddwyd yr adeilad, y festri bellach yn cael ei galw yn Ganolfan. Cynhelir yr oedfaon anffurfiol ar y Sul gan aelodau unigol, y plant a'r ieuencid.

Roedd clywed brwdfrydedd Ann Dwynwen Davies yn heintus wrth roi darlun o'r egni byw sydd o fewn yr Eglwys trwy eu Gweithgor Cydwbybod Cymdeithasol o dan gadeiryddiaeth ysbrydoledig John Llywelyn Thomas. Maent yn cyfrannu i leddfur beichiau cymdeithasol aruthrol sydd o fewn y gymuned. Ymysg eu gweithgareddau y mae 'Dragon Savers', cyfle i deuluoedd sy'n dioddef yn ariannol i gynilo, benthyg a chreu cyfrif. Yna ceir elusennau'r amlenni brown a ddsberthir i'r aelodau, sy'n cyfrannu i bump o elusennau lleol sef Ysgol Tŷ Coch; Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf; 'Adref' sy'n cynnig lloches, urddas a hunan-barch i'r digartref; Merched Cymru a Chymdeithas Nychdod Cyhyrol

Duchenne a Becker. Maent hefyd ynghlwm gyda'r Banc Bwyd ar y cyd â Chapel Bethel, Pont-y-clun. Cynigir cymorth hefyd i Ganolfan Nantgwyn, Aberdâr, canolfan ar gyfer plant sy'n cael trafferthion gartref. Maent hefyd yn rhan o rota Te Pnawn i'r digartref gydag Eglwys Cymraeg Caerdydd.

Yn ogystal â'u cefnogaeth i elusennau lleol mae eu meddylfryd eangfrydig o gyfrannu tuag at achosion tramor yn anhygoel. Yn ogystal â chyfeillio â Chapel Mohale's Hoek yn Lesotho a'u rhan gyda Chymorth Cristnogol a 'Help Save Lives', maent hefyd yn cynorthwyo i leddfur pryderon ffoaduriaid o Syria sydd wedi cael eu hunain, nid o ddewis, yn y gwersylloedd trwy gasglu pecynnau o ddillad plant. Maent hefyd ynghlwm ag Argyfwng Llain Mosul yn Iraq. Trwy'r prosiectau hyn maent yn cydweithio'n agos ag Eglwys Babyddol yng Ngogledd Iwerddon sydd yn trefnu loriau i gludo'r nwyddau. Eglwys Brotestannaidd Gymraeg yn cydweithio ag Eglwys Babyddol yng Ngogledd Iwerddon i helpu Mwslemiaid – dyna Gristnogaeth ar ei orau.

Dyfynnwyd geiriau'r diweddar Jo Cox, yr Aelod Seneddol a lofruddiwyd, 'Mae mwy yn ein huno nac sy'n ein gwahanu'.

Dwy wlad – Cymru a Madagascar, gyda'r un problemau cymdeithasol. Bu'r cenhadon yn fodd i uno'r ddwy wlad ac i gyflwyno neges yr Efengyl, a heddiw, trwy Eglwys fel Efail Isaf a thrwy ddulliau ac ymdrechion dyngarol, parheir i wneud y gwaith.

Yn ystod y dydd cyflwynodd Mrs. Sarah Morris y gwahanol adnoddau sydd ynghlwm â'r thema, 'Myfi yw Goleuni'r Byd' gan annog yr Eglwys i'r Henaduriaethau i'w defnyddio.

Nans Couch

'Addoli yw priod waith yr Eglwys ac y mae popeth arall sy'n gysylltiedig â'i fywyd yn canfod ei ystyr a'i werth wrth iddynt ganfod eu canolbwynt mewn addoliad.'

Lesslie Newbegin

